



Cyngor Dinas Bangor

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 - Adran 6.

(Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2021.

Mabwysiadwyd gan Gyngor Dinas Bangor ym mis Mai 2021.
(Mae'r adroddiad hwn yn estyniad o Adroddiad 2019).

Rhagymadrodd a Chyd-destun

Mae Cyngor Dinas Bangor (CDB) yn gwasanaethu Dinas sydd ag wyth ward ac mae ganddi boblogaeth o dros 18,000 o bobl (yn 2019). Ategir y nifer parhaol hwn o drigolion gan ryw 12,000 o fyfyrwyr, sy'n golygu bod gan Fangor un o'r cymarebau uchaf o fyfyrwyr i breswylwyr parhaol yn y Deyrnas Unedig. Daw'r lledaeniad demograffig hwn â buddion unigryw ynghyd â heriau unigryw i'r Ddinas.

Mae gan Fangor hanes hir sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod ar ôl y Rhufeiniaid. Sefydlwyd Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant yn 525OC a bu meddiannaeth barhaol yma ers hynny. Yn ddaearyddol, saif Bangor mewn dyffryn rhwng dwy grib sy'n rhedeg o'r Gogledd Ddwyrain i'r De Orllewin ac mae'r dyffryn hwn wedi'i glustogi yn y pen gogledd-ddwyreiniol gan y môr. Mae'r lleoliad daearyddol hwn yn rhoi ecosystem bioamrywiol amrywiol i'r Ddinas. Mae'r ardal arfordirol yn dioddef o erydiad arfordirol a bydd gwaith yn dechrau yn y blynyddoedd i ddod i wella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd.

Daeth pandemig Covid 19 a'r cyfyngiadau yn ei sgil â chryn heriau a chyfyngwyd ar allu Cyngor y Ddinas i ddatblygu ei bolisiâu.

Y tu allan i Ganol y Ddinas, mae llawer iawn o dir pori a chaeau heb eu rheoli, nifer yn eiddo i Gyngor y Ddinas. Gellid gwella bioamrywiaeth yn yr ardaloedd gwyrdd hyn gyda pholisi gwell a mwy rheoledig o hyrwyddo gwahanol rywogaethau amrywiol o blanhigion a bywyd gwylt, ac annog helwyr neu bryfed peillio.

Cydnabyddir y dylai Cyngor y Ddinas baratoi strategaeth fanwl i wella bioamrywiaeth o fewn y Ddinas a'r cyffiniau. Dylid paratoi strategaeth o'r fath o fewn egwyddorion sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae CDB yn darparu ystod o wasanaethau i'r gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth, megis: - Rheoli Mannau Gwyrdd sy'n eiddo i Gyngor Dinas Bangor, Plannu/Cynnal Potiau Blodau a Basgedi Crog, Plannu a Rheoli Coed, Cynnal a Chadw Llwybrau Troed, Rheoli Pier.

Mae CDB yn gyfrifol am yr Ardaloedd Bioamrywiaeth a ganlyn: -

1. Coed y Penrhyn Arms. Cynnal y coetir fel cynefin lleol o goed amrywiol, planhigion a rhywogaethau llwyni gyda mynediad i'r cyhoedd. Mae cynnal a chadw'n cynnwys ymateb i bryderon lechyd a Diogelwch, difrod stormydd ac ymyrraeth ofalus i hyrwyddo a chynnal bioamrywiaeth.

2. Caeau Ashley Jones. Cae mawr agored, wedi'i amgylchynu â choed, sy'n cael ei ddefnyddio'n aml gan y preswylwyr lleol. Plannwyd coed Sakura ychwanegol yn y lleoliad hwn i gynyddu bioamrywiaeth. Caiff y cae ei reoli mewn modd sy'n annog bywyd gwylt a pheillwyr a dim ond y llwybrau cerdded rheolaidd sy'n cael eu torri'n gyson.

3. Caeau Dargie . Mae'r darn hwn o dir wedi'i leoli yng nghanol ardal breswyl a myfyrwyr yn y Ddinas ac fe'i gadewir yn gymharol ddi-reolaeth i annog blodau gwylt a fflora

4. Mannau Chwarae. Mae parciau a mannau chwarae Bangor yn eiddo i Gyngor Gwynedd ac, o'r herwydd, mae'r ardaloedd hyn yn cael eu cynnal i amserlen yr awdurdod hwnnw. Teimlir, trwy annog mwy o gyfranogiad gan y Cyngor Sir yn y gwaith cynnal a chadw hwn, y gallai Cyngor y Ddinas gynyddu'r amserlen reoli er budd bioamrywiaeth ac ymddangosiad esthetig y parciau hyn. Gallai pob parc ddod yn fan natur lleol i'r gymuned.

5. Adeiladau. Mae CDB yn berchen ar ac yn cynnal nifer o adeiladau yn y Ddinas, gan gynnwys Cloc Canol y Ddinas, Neuadd y Penrhyn, gweithdy'r Pier ac ati.

Adroddiad Gweithredu

<u>Bwriadau / Nodau</u>	<u>Gweithredoedd a Chynlluniau</u>	<u>Proses Fonitro</u>
<p>Gwreiddio bioamrywiaeth i mewn i'r broses gwneud penderfyniadau a chaffael</p>	<p>Ystyried bioamrywiaeth wrth gynllunio prosiectau plannu.</p> <p>Ystyried ceisiadau cynllunio o safbwynt bioamrywiaeth.</p> <p>Cymryd rhan mewn trafodaethau am lifogydd a materion cysylltiedig sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ac addasu.</p> <p>Integreiddio'r ddyletswydd ar draws polisiâu a gweithdrefnau CDB.</p> <p>Cynnal arolwg sylfaenol o beillwyr fel canllaw bras i rywogaethau a chynefinoedd lleol.</p>	<p>Craffu ar gofnodion ac agendâu, dilyniant gweithdrefnau fel rhan o arfer gorau.</p>
<p>Codi ymwybyddiaeth o bioamrywiaeth a'i phwysigrwydd</p>	<p>Cynghorwyr i gymryd rhan weithredol mewn bioamrywiaeth o fewn eu Wardiau ac wrth gysylltu â sefydliadau lleol.</p> <p>Cynghorwyr sy'n llywodraethwyr ysgol i hyrwyddo bioamrywiaeth ar bob cyfle.</p> <p>Grantiau CDB i gydnabod grwpiau lleol sy'n ymwneud â chynyddu bioamrywiaeth.</p> <p>Gosod byrddau picnic a meinciau yn y parciau a'r llwybrau i'r trigolion gael mwynhau bioamrywiaeth.</p> <p>Ffactorau a phrosiectau amgylcheddol i fod yng nghanol Cynllun Cymunedau Lle CDB ac Uwch Gynllun Dinas Bangor.</p>	<p>Annog y Cynghorwyr ac eraill i adrodd am ddigwyddiadau, cyfarfodydd a chynlluniau ar draws CDB, y cymuned a Chyngor Gwynedd.</p>

<p>Diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd</p>	<p>Bod yn ymwybodol o rywogaethau a chynefinoedd naturiol ei dir, yn benodol Coed Menai. Bod yn ymwybodol o rywogaethau sy'n byw ac yn bwydo ar neu o amgylch adeiladau Cyngor Dinas Bangor.</p> <p>Sefydlu cynefinoedd gwesty chwilod a gaeafgysgwyr, mewn gwahanol leoliadau o fewn ardal CDB.</p> <p>Cymryd rhan mewn rheoli mannau gwyrdd ar dir Cyngor Gwynedd.</p>	<p>Annog y Cyngorwyr ac eraill i adrodd am ddigwyddiadau, cyfarfodydd a chynlluniau ar draws CDB, y cymuned a Chyngor Gwynedd.</p>
<p>Mynd i'r afael â ffactorau negyddol h.y. lleihau llygredd, defnyddio atebion seiliedig ar natur, taclo rhywogaethau ymledol.</p>	<p>Cynhelir arolygon coed bob chwarter yng Nghoed Menai i sicrhau fod y coed o dan berchnogaeth CDB yn iach.</p> <p>Monitro sbwriel a gwastraff sy'n cael ei adael ar safleoedd CDB.</p> <p>Trefnu diwrnodau codi sbwriel gan y Cyngorwyr a gwirfoddolwyr, fel Diwrnod Glân Bangor.</p>	<p>Annog y Cyngorwyr ac eraill i adrodd am ddigwyddiadau, cyfarfodydd a chynlluniau ar draws CDB, y cymuned a Chyngor Gwynedd.</p>
<p>Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth.</p>	<p>Gweithio gyda'r Swyddog Bioamrywiaeth o Gyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill i sicrhau defnyddio'r arferion gorau ac i gynyddu gwybodaeth am faterion lleol a phrosiectau/cynlluniau.</p> <p>Cymryd cyngor gan Treborth a Phrifysgol Bangor lle bo'n briodol.</p>	<p>Cyflwyno cofnodion i Ecolegydd Cyngor Gwynedd</p> <p>Defnyddio Cyngor Arbenigol (e.e. Cyngor Gwynedd, cynrychiolwyr Prifysgol Bangor).</p> <p>Swyddogion Cadw Cymru'n Daclus ac UIC.</p>

Adolygu Dyletswydd Adran 6

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Mae Cyngor y Ddinas yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill i wella rheolaeth mannau gwyrdd yn y Ddinas, bydd yn edrych ar gamau i wella bioamrywiaeth yn y Ddinas dros y blynyddoedd nesaf.

Beth fu'r rhwystrau?

Bu cyfyngiadau Covid yn rhwystr, hefyd y diffyg arbenigedd mewnol i adnabod y newidiadau sydd eu hangen neu'r arferion gorau.

Beth fyddwch chi'n newid?

Cysylltu â sefydliadau arbenigol lleol fel Treborth i gael y cyngor gorau ar wella bioamrywiaeth.

Sut a phryd fydd dyletswydd Adran 6 yn cael ei monitro a chynllun Adran 6 yn cael ei hadolygu?

Bydd Cynllun Adran 6 yn cael ei adolygu yn unol ag adolygiadau polisi blynyddol y Cyngor ac adroddiadau ac awgrymiadau ar gyfer newidiadau a gyflwynir gerbron y Cyngor.